

RHYBUDD o Penderfyniadau'r cyfarfod o'r Cyngor Sir Ynys Môn a gafwyd ar 7 Medi, 2021

Yn Bresennol : Y Cyngorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith, Glyn Haynes (Cadeirydd), K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), J A Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams,

Ymddiheuriadau : Y Cyngorwyr Richard Griffiths, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones

Hefyd yn Bresennol : Dim

(2.00 o'r glo - 3.20 o'r gloch)

RHIF YR EITEM	1. Cofnodion
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd y cofnodion canlynol yn rhai gywir:- <ul style="list-style-type: none">• 18 Mai, 2021 (10.00 a.m.)• 18 Mai, 2021 (Cyfarfod Blynyddol) (2.00 p.m.)• 29 Gorffennaf, 2021 (Arbennig)
RHIF YR EITEM	2. Datganiad o Ddiddordeb
PENDERFYNIAD	Dim wedi ei dderbyn.
RHIF YR EITEM	4. Cyflwyno Deisebau
PENDERFYNIAD	Dim wedi ei dderbyn.
RHIF YR EITEM	5. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2020-2021 – Adroddiad y Cadeirydd
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWDYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2020/21.

RHIF YR EITEM	6. Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/21.

RHIF YR EITEM	7. Newidiadau i'r Cyfansoddiad: Pwerau wedi'u dirprwyo – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol. • Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig (e.e. Rheoli Ffiniau) o dan Adran 59(3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. • Dirprwyo ei awdurdod dros negodi'r holl fuddion cymunedol anstatudol a phob penderfyniad sy'n berthnasol i drafodaethau o'r fath, yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), i'r Dirprwy Brif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor. • Diweddarau adran 3.5.3. yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau uchod.

RHIF YR EITEM	8. Datganiad Amrywiaeth
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu'r datganiad amrywiaeth fel a nodir yn yr adroddiad. • Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor

**Gwasanaethau Democraidd gytuno
cynllun gweithredu i gefnogi'r
datganiad**